

Hyd: 2 fis

Ar gael: Mawrth-Mehefin 2025

Mae preswylfa Magnetig 3, dan arweiniad Frac Llydaw, yn cynnig 6-7 wythnos o ymchwil yn Oriol Dourven ac 1-2 wythnos o rwydweithio proffesiynol yn Roazhon/Rennes a/neu Brest.

Frac Llydaw

Yn Llydaw ym 1981 y cafodd ei sefydlu. Mae'n sefydliad celf blaenllaw â rhaglen uchelgeisiol o arddangosfeydd ac sy'n lledaenu a dogfennu'r casgliad a chynnal rhaglenni i'r cyhoedd. Nod prosiect artistig a diwylliannol Frac Llydaw, o'r enw "Creu ynysforoedd", yw cwestiynu sut y gallai fynd i'r afael â dyheadau dilys ein cymdeithas. Mae cynwysoldeb, amrywiaeth a bod yn agored o ran meysydd eraill o ddisgyblaeth yn Llydaw a'r byd yn agweddau pwysig ar ei genhadaeth a ddatblygwyd drwy bolisi cyfryngu ar draws y sefydliad a chyda'r cyhoedd. Mae'n rhan o rwydweithiau rhyngwladol ac yn cydgynhyrchu â sefydliadau eraill. Mae hefyd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chydraddoldeb rhywiol a bod yn eco-gyfrifol.

Oriel Dourven

Canolfan gelf sy'n ymroddedig i greu ac arddangos celf gyfoes. Mae ynghanol ardal naturiol o 16 hectar ar bentir creigiog y pentref arfordirol Tredraezh-Lokemo/Trédrez-Locquémeau sy'n agos i Lannuon/Lannion yn Llydaw. Mae amrywiaeth eang o blanhigion o bob cwr o'r byd yn tyfu a ffynnu yno ers y ganrif ddiwethaf. Mae lleoedd sydd wedi'u plannu a rhai gwyllt yn ffurfio cytgord unigryw yn erbyn golygfa'r arfordir sy'n newid gyda'r llanw.

Mae'r arddangosfeydd yn adleisio'r lleoliad naturiol a dangos prosiectau gan artistiaid gweledol lleol a rhyngwladol sy'n gweithio gyda phob math o dechnegau ar thema'r dirwedd. Mae hefyd yn breswylfa ymchwil a chreu sy'n cynnig i artistiaid le i fyw a gweithio, amser ac adnoddau technegol a dynol i'w cefnogi. Mae'n ffynhonnell o ysbrydoliaeth i artistiaid sy'n cael gwahoddiad i gwestiynu eu gwaith yn y lle bendigedig yma drwy eu cyrff, eu synhwyrau a'u meddyliau.

1/ Ffocws

Mae lleoliad arfordirol Oriol Dourven yn agor meysydd ymchwil eang fel y berthynas rhwng celf a natur, yr amgylchedd a ffyrdd newydd o fyw.

2/ Adnoddau'r rhaglen

Mae'r breswylfa'n cynnig:

- ffi artist o 2500 € y mis
- llety preifat wedi'i ddodrefnu yn Oriel Dourven a Roazhon/Rennes
- cefnogaeth guradurol gan Etienne Bernard, cyfarwyddwr Frac Llydaw, ac Elsa Briand, cyfarwyddwr Oriel Dourven
- cysylltiad â phobl leol a sefydliadau o bwys (curaduron, artistiaid, cymdeithasau, sefydliadau)
- talu am y teithiau rhwng Cymru a Llydaw a theithio'n lleol

3/ Hygyrchedd

Nid yw Oriel Dourven yn gwbl hygyrch i bobl ag anawsterau symud.